**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 18/07/2019**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**
**AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Angharad Jones (Cadeirydd); Y Gynghorwraig Clare Hughes; Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Gynghorwraig Mair Jones; Y Cynghorydd Gareth Owen (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Eleri Thomas, Clerc & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Y Cyngh. John Jones; y Cyngh. Wil Lewis a'r Cyngh. Doug Rowbotham.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:**
Rhoddodd S. C. C. yr Heddlu John Evans ddiweddariad parthed digwyddiadau sef:

1. Lladrata beiciau modur yn ardal Llanddewibrefi a Phontrhydfendigaid: Ystiriwyd troseddwyr teithio; meddylid y gallai cyfryngau cymdeithasol wedi cyfrannu at y drosedd.
2. Achosi difrod i / lladrata 3 plât mosaig yn ardal Coed y Bont: Mae cynlluniau ar y gweill i atgyweirio'r platiau.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'u datgan.

**6. CADARNHAU COFNODION O'R 20fed o Fehefin 2019**
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Laura Jones) **EILIWYD** (y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 20fed o Fehefin 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones arwahan i'r canlynol:

**6.1 Cyf. Cofnod: 7.2: Cais i osod palmant ger y Lloches Bws ym Mhenrhiw, Ffair Rhos:** …. Roedd y Gyngh. Clare Hughes wedi symud y blwch blodau o'r safle. Dylai ddarllen, y *Cyng. Gareth Owen* wedi symud y blwch blodau o'r safle.

**7. MATERION YN CODI**
**7.1 Glan-yr-Afon**: parthed tanc olew, canfuwyd nad oedd y tanc olew wedi'i leoli ar lwybr cerdded Glan-yr-Afon nac ar eiddo preswylydd cyfagos. Adroddwyd at sylw Cyfoeth Naturiol Cymru; roeddynt o'r farn y dylid adrodd y consyrn at sylw Cyngor Sir Ceredigion. Disgwylir ateb gan Gyngor Sir Ceredigion.

**7.2** **Cais i osod palmant ger y Lloches Bws ym Mhenrhiw, Ffair Rhos:** Y mae’r gwaith wedi’i gwblhau. Bydd angen gwaith pellach parthed y gwely blodau a gosod y fainc mewn lle.

**7.3** **Arolwg Ardal Chwarae Pantyfedwen** - Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) 2019: Y mae’r Arolwg yr Archwiliad Ardal Chwarae ROSPA wedi’i gario allan ym mis Mehefin 2019. **Atodiad 1**

**7.4** **Arwyddion Ffordd: Lleihau Cyflymder**
Casglodd y Gyngh. Laura Jones yr arwydd oddi wrth y Cwmni *Rebus,* Stad Ddiwydiannol, Aberystwyth, i'w leoli gyferbyn â Thafarn Teifi, Ffair Rhos. *Y gwaith yn mynd yn ei flaen.*

**7.5** **Porth y Gymuned: Cyngor Sir Ceredigion**: ymateb gan Gyngor Sir Ceredigion yn datgan y gallai cynrychiolydd fynychu cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor Cymuned. Cytunwyd i dderbyn y gwahoddiad yn ystod cyfarfod mis Mehefin. Hysbyswyd y Cyngor Sir ond ni dderbyniwyd ateb cyn belled.

**7.6** **Enwebwyd y Gyngh. Laura Jones** i gynrychioli’r Cyngor Cymuned yn ystod cyfarfodydd Pwyllgor y Neuadd. Ceisodd eglurhad pellach ar beth oedd yn ddisgwyliedig ohoni yn rhinwedd y swydd honno. Cysylltwyd ag Un Llais Cymru am gyngor- “Cynrychiolydd Cynghorydd - rhaid i Gynghorydd sy’n gynrychiolydd Cyngor ar elusen leol neu grŵp gwirfoddol beidio â chaniatáu i’w rôl fel Cynghorydd wrthdaro â’i d/ddyletswydd i weithredu er budd yr elusen / grŵp gwirfoddol; rhaid i Gynghorydd sy’n cynrychioli’r Cyngor ar grŵp elusennol / gwirfoddol gadw Cod Ymddygiad y Cyngor pan fydd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor ac yn ymwneud â'r elusen / grŵp gwirfoddol."
Cytunwyd pe bai'r Cynghorwyr yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgorau, byddai'n arfer da iddynt adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned yn ystod cyfnodau penodol.

**7.7** **Eisteddfod Ceredigion 2020**: Seremoni Cyhoeddi, 29ain Mehefin 2019 yn Aberteifi. Gwahoddiad i ddau Gynghorydd Cymunedol i fod yn bresennol. Cynrychioydd y Cyngor Cymuned oedd y Cynghorydd John Jones.

**7.8** **Swyddog Datblygu Cymunedol a Thwristiaeth: Pentir Pumlumon**, yn gofyn a fyddai'n bosibl trefnu cyfarfod anffurfiol â chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i drafod twristiaeth yr ardal. Cytunwyd i wahodd y Swyddog i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned; bydd yn mynychu cyfarfod mis Hydref y Cyngor Cymuned.

**7.9** **Adroddwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol** bod canghennau coed yn gordyfu dros brif bont y Pentref (Sycamorwydden ac Onnen) yng nghyffiniau Glan-yr-Afon. Clustnododd y Cynghorydd Gareth Owen sylw i'r mater yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd nes trafod ymhellach gyda'r Cynghorydd Non Jones.

**7.10** **Gwefan Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: Derbyniwyd cyngor gan Un Llais Cymru, “Os mai dyma’r wefan y Cyngor Cymuned ble mae'r Cyngor yn cwrdd â’r gost am gynnal ac am ddefnyddio'r enw parth yna argymhellir y dylai'r Clerc dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i uwchlwytho dogfennau ac ati i'r wefan. Dylai'r person a sefydlodd y wefan fedru cynnwys y Clerc fel gweinyddwr.” Mae'r Clerc bellach wedi derbyn hawliau golygu. Gosodwyd y safle ar y we mewn lle gan y

Gynghorwraig Laura Jones ym 2017 a hyd yn hyn y mae wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei ddiweddaru.

8. **GOHEBIAETH**

8.1 **Adran y Priffyrdd: Cyngor Sir Ceredigion:** Gwybodaeth yn ymwneud â rhaglenni dros dro ar gyfer triniaeth cynnal a chadw ffyrdd cerbydau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn cynnwys Camau 1 & 2 o ran gosod wyneb newydd, trin wyneb presennol y ffordd a thriniaeth hydro-chwistrellu â dŵr. Bydd Cam 3 gosod wyneb newydd hefyd yn cael ei gyflawni tua ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd manylion ynghylch hyn yn cael ei ddarparu nes ymlaen. Yn berthnasol i Bontrhydfendigaid- Heol Rhif B4343; Cyffordd C1044 i'r Arwyddion Terfyn Cyflymder, Pontrhydfendigaid a Rhif Heol: Cyffordd U1369 i Bwlchyffin, Pontrhydfendigaid.

8.2 **Datblygu Gwasanaethau Trawma: GIG Cymru**: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Cynigiwyd datblygu Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin fel Uned Drawma dros dro yn y blynyddoedd cyn adeiladu Ysbyty Gofal Brys a Gofal wedi'i drefnu newydd. Mae hyn ochr yn ochr â gwaith y Rhwydwaith Trawma Mawr cenedlaethol i leoli y Ganolfan Trawma Mawr ar gyfer de Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru Caerdydd. Bydd y gwasanaethau aciwt a brys sydd yn Ysbyty Bronglais Aberystwyth ac Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd ar hyn o bryd yn aros, a byddant yn parhau i ddelio ag anafiadau trawmatig llai difrifol. Croesawir barn neu gwestiynau ar y cynlluniau i wella gofal trawma lleol. Yn amgaeedig dogfen drafod, "Datblygu Gwasanaethau Trawma ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda". Mae mwy o wybodaeth ar gael ar www.bihyweldda.wales.nhs.uk/GwasanaethauTrawma.

8.3 **GIG Cymru: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:** Canolbarth a Gorllewin Iachach – Cenedlaethau'r Dyfodol yn byw bywyd iach. Mae strategaeth iechyd a gofal ar waith ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Yn amgaeedig dogfen crynodeb "Canolbarth a Gorllewin Iachach" fel canllaw iechyd a gofal trwy'r 20 mlynedd nesaf, fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol fyw'n iach. Gellir darllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd ar y gwefan www.bihyweldda.wales.nhs.uk/canolbarthagorllewiniachach neu wneud cais am gopi trwy ffonio 01554 899 056.

8.4 **Cynhadledd Un Llais Cymru:** Dydd Sadwrn 5ed Hydref 2019 Pafiliwn y Bont. Cytunwyd i ofyn tybed a fyddai'n bosibl i Gynghorwyr fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) yn rhad ac am ddim.

8.5 **Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

9. **CYLLID**

9.1 **Cyflog y Clerc: Mehefin 2019**: £193.83 (Gross).

9.2 **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.
*Yn disgwyl taliad.*

**9.3** **Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** clustnodi sylw pellach i'r Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod nesaf.

**9.4** **Archwiliad Ariannol Mewnol / Allanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018-19:** Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: Ymgymrwyd â'r Archwiliad Mewnol gan Mrs Enid Hughes yn ystod yr wythnosau diwethaf. Atodiad 2: Adroddiad yr Archwilydd. Cyflwynwyd dogfennau gerbron yr Archwilwyr Allanol Grant Thornton erbyn y 1af o Orffennaf 2019. Y mae'r dogfennau ar gael ar safle ar y we'r Cyngor Cymuned. Cysylltodd Grant Thornton â'r clerc i ofyn iddi gadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu fel Ymddiriedolwr; dywedwyd bod y Cyngor Cymuned wedi ymgymryd â rôl Ymddiriedolwr Ceidwad Pwyllgor Neuadd Pantyfedwen. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Chadeirydd Pwyllgor y Neuadd i ofyn tybed a fyddai'n bosibl derbyn copi o'r Fantolen Ariannol Diwedd Blwyddyn.

**9.5** **Gwobrwywyd yr Ysgoloriaeth Saphiea i Delun Davies (£20).** Yn y dyfodol, gofynnwyd tybed a allai'r Ysgol anfon gwahoddiad ffurfiol i Gadeirydd y Cyngor Cymuned i Seremoni Wobrwyo'r Ysgol.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1** **Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

**11.1** **Mae angen atgyweirio'r ffens bren** gyferbyn â Dolawel.

**11.2** **Mynegwyd consyrn parthed materion amgylcheddol** yng nghyffiniau Lôn Fach - i geisio cyngor y Cyngor Sir.

**11.3** **Mynegodd Cynghorwyr bryder mewn perthynas â chyflymder cerbydau** ar ddwy fynedfa'r Pentref. Gofynnwyd a ellid gostwng y cyfyngiad cyflymder i 20mya. *I gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion a'r Heddlu.*

**11.**4 **Pyllau Teifi Pools:** diwedd Ffordd Tarmac - Mae arwydd sy'n datgan "Anaddas ar gyfer Cerbydau Modur" ar goll*: i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion.*

**11.5** **Mae'r arwydd cyflymder 30mya gyferbyn â Park House** yn aneglur – i hysbysu CS Ceredigion.

**11.6** **Mae canghennau perth yn lledaenu dros yr Arwydd Cyflymder** ger Tre Mafon: i hysbysu CSC.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.30 pm.**

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 19eg Medi 2019 at 7pm.

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)